


Crynodeb o Hanes Dynol yn Sir Conwy

Sylwch nad yw'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i roi hanes cynhwysfawr neu ddiffiniol o Sir Conwy. Ei nod yw amlygu rhannau penodol o hanes a chymeriad amrywiol yr ardal hon, dros gyfnod o filoedd o flynyddoedd.



CANOLFAN
DDIWYLLIANT
CONWY
CULTURE
CENTRE



Cynhanes i 1066 AD

Mae'r sir sy'n cael ei hadnabod fel 'Conwy' heddiw yn gymharol newydd yng nghyd-destun hanes dynol. Mae pobl wedi bod yn teithio, byw a chael eu claddu yn yr ardal hon ers cannoedd o filoedd o flynyddoedd, ymhell cyn y rhoddwyd i Gonwy ei henw. Byddai'r bobl hyn wedi teithio o bob cwr yn chwilio am lefydd i hela ac ymgartrefu, gan ddod â'u grwpiau teuluol gyda nhw.

Daethpwyd o hyd i ên uchaf plentyn Neanderthalaidd yn Llanelwy, Sir Ddinbych, 15 milltir i'r dwyrain o Ganolfan Ddiwylliant Conwy. Yr asgwrn hwn yw'r gweddillion dynolaidd cynharaf i gael eu darganfod yng Ngogledd Cymru, yn dyddio 230,000 o flynyddoedd yn ôl yn ystod cyfnod a elwir yn Oes Balaeolithig, neu Hen Oes y Cerrig. Ychydig a wyddom am y bobl hyn heb law am y dystiolaeth brin a geir mewn ogofau ger arfordir Conwy. Dros amser, byddai Neanderthaliaid yn marw o'r tir gan adael Homo sapiens, a elwir hefyd yn ddynion modern. Yn Llandudno, daethpwyd o hyd i bedwar sgerbwd dynol yn Ogor Kendrick ar y Gogarth, Llandudno. Daethpwyd o hyd i'r rhain gydag esgyrn anifeiliaid ac asgwrn gêm ceffyl wedi'i addurno, un o'r darnau gorau o gelf cyn hanesyddol o'r cyfnod hwn. Aeth yr hinsawdd yn oerach a chafodd yr ardal hon ei gadael am tua 8,000 o flynyddoedd (21,000-13,000 o flynyddoedd yn ôl) wrth i haenau trwchus o rew orchuddio'r tirlun. Roedd yr asgwrn gêm hwn yn dyddio oddeutu 10,000 o flynyddoedd yn ôl, tua diwedd y cyfnod Palaeolithig yng Nghymru.

Pan gynhesodd yr hinsawdd oddeutu 12,000 o flynyddoedd yn ôl, dychwelodd pobl yn raddol i'r ardal ble saif Conwy heddiw. Parodd y cyfnod hwn, a elwid yn Oes Mesolithig neu Oes y Cerrig Canol, am 7-8,000 o flynyddoedd. Byddai grwpiau teuluol mawr yn teithio o gwmpas yn chwilio am lefydd i hela a chasglu bwyd, yn dibynnu ar ba adeg o'r flwyddyn yr oedd hi. Byddai'r bobl hyn wedi byw mewn gwerysloedd ac ogofau bach ar wahanol dymhorau, gan fyw'n bennaf ger yr arfordir neu ger afonydd. Daethpwyd o hyd i offer o garreg fflint o'r cyfnod hwn ger Llandudno a thref Conwy, yn ogystal â mewn safle gwaith-fflint mawr ger Llansannan. Byddai'r ffordd hon o fyw yn parhau am filoedd o flynyddoedd nes y cyflwynwyd amaeth yn raddol ym Mhrydain gan deithwyr o'r Dwyrain Canol, yn ogystal â theithwyr o'r cyfandir.

Mae'r rhan fwyaf o dystiolaeth o weithgarwch dynol yn yr ardal yn dechrau 5,000 o flynyddoedd yn ôl yn Oes y Cerrig Newydd (Yr Oes Neolithig). Yn y cyfnod hwn, dechreuodd pobl adeiladu tai i fyw ynddynt, yn ogystal â ffermio drwy dyfu cnydau a magu anifeiliaid. Gellir olrhain diwydiannau cyntaf Conwy a Phrydain

yn gyffredinol i'r cyfnod hwn. Bu twf mewn cynhyrchiant bwyell neolithig o amgylch Craiglwyd, Penmaenmawr, gyda phennau bwyell yn cael eu cludo ledled ynys Prydain, gan gynnwys Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog ac hyd yn oed Llundain. Yn ystod y cyfnod hwn, claddwyd pobl mewn beddrodau carreg mawr a alwyd yn siambrau claddu – byddai angen i nifer o bobl gymryd rhan yn y gwaith hwn. Roedd rhai o'r cerrig a ddefnyddiwyd yn pwysu mwy na char teuluol! Ceir un o'r enghreifftiau gorau o'r beddrodau hyn yng Nghapel Garmon, beddrod 'Cotswold Hafren' gan awgrymu fod pobl wedi teithio yma o'r tu allan i Gonwy i ymgartrefu.

Dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl byddai diwydiant newydd yn dod i'r amlwg, a sbardunwyd gan y galw am ddeunydd newydd – efydd, a grëwyd drwy ychwanegu tin at gopr. Roedd y deunydd hwn yn bwysig iawn mewn diwylliant cynhanesyddol, gymaint felly fel iddo roi ei enw i gyfnod newydd yn hanes Prydain – yr Oes Efydd. Yn sir Conwy, datblygodd mwynglawdd copr cyn hanes mwya'r byd ar y Gogarth rhwng 1,800-600 CC, gan fasnachu mor bell â Ffrainc a'r Almaen. Daeth syniadau am statws a chyfoeth yn fwy eang eu gwasgariad – rhoddwyd y gorau i ddefnyddio beddi cymunedol fel beddrodau carreg a siambrau claddu a daeth tomeni a beddi wedi'u haddurno'n unigol yn eu lle, ac ynddynt y claddwyd cyrff ynghyd ag eiddo personol. Ceir tomenni ym mhob cwr o'r sir, mewn mannau fel Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion a Chaerhun. Rhai o gofadeiliau eraill y cyfnod hwn yw meini hirion; mae swyddogaeth (ac hyd yn oed oedran) y rhan fwyaf o'r cofadeiliau hyn yn parhau i fod yn aneglur.

Wrth i'r hinsawdd oeri, wrth nesáu at Oes yr Haearn, roedd adnoddau yn prinhaus ac roedd yr adnoddau prin hynny yn fwy a mwy gwerthfawr. Roedd pobl yn adeiladu tyddynnod bach a amddiffynnwyd i amddiffyn yr hyn oedd ganddynt. Roedd rhai o'r rhain yn anheddau unig ar dir isel neu yn y dyffrynnoedd tra bod eraill yn fryngaerau trawiadol ar yr ucheldiroedd. Roedd rhai o'r bryngaerau hyn mewn lleoedd fel Caer Seion ger Conwy, Bryn Euryn ger Llandrillo-yn-Rhos a Mynydd y Gaer ger Llanefydd. Yn y cyfnod hwn, mae ffynonellau ysgrifenedig yn sôn am lwythi Celtaidd fel yr Ordoiciaid, llwyth a oedd yn berchen ar lawer iawn o ganol a gogledd-orllewin Cymru erbyn diwedd Oes yr Haearn.

Llywodraethwyd bywydau pobl gan y tymhorau a'r hinsawdd gan fod y rhain yn effeithio ar bob rhan o'u bywydau. Mae'n debyg fod adloniant yn cynnwys adrodd hanesion, cerddoriaeth, paentio a gemau syml. Yn anffodus, prin iawn yw'r dystiolaeth o deganau o'r cyfnod hwn a daethpwyd o hyd iddynt yn y sir, gan awgrymu eu bod wedi eu creu o ddeunyddiau darfodus fel pren, lledr neu wellt.

Yn 48 Oed Crist, ymosododd y Rhufeiniad ar yr hyn sydd bellach yn cael ei alw yn ogledd Cymru. Brwydront am reolaeth, ond cawsant drafferth gyda'r tirwedd mynyddig a sgiliau brwydro guerrilla'r llwythi lleol (Brythoniaid). Adeiladodd y Rhufeinaid rwydweithiau o ffyrdd i mewn i Ogledd Cymru i'w helpu i frwydro'r brodorion, a daethpwyd o hyd i garreg-filtir Rufeinig wedi'i chysegro i Hadrian (dyddiedig 10 Rhagfyr 120 – 9 Rhagfyr 121 Oed Crist) ger ffin y sir yn Llanfairfechan. Nid yw'n ymddangos fod y llwyth Brythonaidd i'r dwyrain o'r Afon Conwy, y Deceangli, wedi rhoi fawr o frwydr iddynt, ond i'r gorllewin o'r Conwy,

parhaodd yr Ordoficiaid i'w gwrthsefyll am 30 mlynedd. Daeth archeolegwyr o hyd i dystiolaeth o lwythi lleol yn brwydro yn ôl yn erbyn y Rhufeiniaid ym Mryn Eurn, a daethpwyd o hyd i gerrig tafl yng Nghaer Seion, Conwy. Adeiladodd y Rhufeiniaid gaer, Canovium (y safle sydd bellach yn cael ei alw'n Caerhun), i warchod croesfan strategol yr Afon Conwy. Adeiladwyd y gaer gyntaf o gefnau cloddwaith a ffosydd ond cawsant eu hailadeiladu o garreg yn ddiweddarach. Cefnwyd ar y gaer yn tua 200 Oed Crist ac yna'i hailfeddiannu tan ddiwedd y 4edd ganrif. Nid gorchfygu oedd y cyfan serch hynny, gan fod y Rhufeiniaid wedi cyflwyno glanweithdra, llythrennedd a darnau arian. Daethpwyd o hyd i gelciau o ddarnau arian Rhufeinig ger Penmaenmawr a Llandudno, ac roedd y Rhufeiniaid yn cloddio am blwm yng Nghapel Curig yn ystod y cyfnod hwn.

Yn y cyfnod hwn hefyd y gwelwn y cofnod cynharaf o gemau bwrdd yn cael eu chwarae yng Nghonwy. Daethpwyd o hyd 'gêm fwrdd' gyda chownteri yng Nghaerhun. Byddai hyn wedi diddanu milwyr yn y gaer yn ystod eu egwylliau.

Ychydig a wyddom am hanes yr ardal yn dilyn ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain. Tybir y gallai'r brodorion fod wedi dychwelyd i ffordd o fyw Geltaidd gynharach, ond roedd diwylliant Rhufeinig yn dal i ddylanwadu arnynt. Gallai Cristnogaeth, a gyflwynwyd gan y Rhufeiniaid yn y drydedd ganrif, fod yn un o'r dylanwadau hyn. Daethpwyd o hyd i gerrig bedd Cristnogol gydag arysgrifiadau Lladin yn y sir, gan gynnwys ym Modaon (Conwy), ac mae nifer o gerrig beddi ôl-Rufeinig ym Mhenmachno, casgliad o arwyddocâd hanesyddol mawr, ac un o'r mwyaf yng Nghymru.

Yn y cyfnod hwn, dechreuodd y teyrnasoedd Cymreig cynharaf ffurfio. Yn Neganwy, mae archeolegwyr wedi darganfod tystiolaeth o fasnachu gyda Gogledd Affrica yn ystod y 5ed Ganrif Oed Crist. Cyfeirir at Wynedd, a alwyd yn Venedotia ar y pryd, ar un o'r cerrig bedd ym Mhenmachno. Byddai Gwynedd, a oedd ar un adeg yn deyrnas fechan, yn y pen draw yn rheoli'r rhan fwyaf o ogledd-orllewin Cymru erbyn y Goresgyniad Normanaidd. Cyfeirir at un o'r brenhinoedd cynharaf, Maelgwn Gwynedd, gan groniclwyr diweddarach o Loegr. Arweiniodd grym gwleidyddol cynyddol yr ardal at wrthdaro gyda teyrnasoedd Seisnig cyfagos yn y cyfnod hwn.

Erbyn diwedd yr 8fed ganrif, nodwyd y ffin rhwng Cymru a theyrnas Eingl-Sacsonaidd Merisa gan ffin gloddwaith a alwyd yn Glawdd Offa. Byddai'r ffin hon yn nodi'n fras y ffin bresennol rhwng Cymru a Lloegr. Bu brwydrau rhwng y Cymry a'r Saeson yn sir Conwy yn ystod y cyfnod hwn - yn 881 bu brwydr ffyrnig rhwng byddinoedd Cymru a'r Sacsoniaid ger glannau gorllewinol afon Conwy, yng Nghymryd, 1km i'r de o Gonwy. Yn dilyn brwydro dwys, bu'r Cymru'n fuddugol, gyda'r byddin Sacson yn cael eu gorfodi i ffoi yn ôl i Fersia.

1066 - 1699

Yn dilyn goresgyniad William I o Loegr yn 1066, roedd Cymru wedi dod yn wlad o ymrafael. Golygai Cyfraith Olyniaeth Cymru fod yn rhaid rhannu tir rhwng meibion neu frodyr y meirw, yn hytrach na fod popeth yn mynd i un etifedd. Gwanhawyd Cymru gan yr ymrafael hwn ac roedd weithiau'n atal ymdrechion i gynnig gwrthsafiad unedig yn erbyn y goresgynwyr. Cafodd Wiliam Goncwerwr anhawster yn mentro ymhell i mewn i Gymru oherwydd y tirwedd gwyllt. Yn y pendraw, trosglwyddodd reolaeth dros yr ardal i Arglwyddi'r Mers a ffurfiodd 'ffin' o gestyll mwnt a beili rhwng Cymru a Lloegr.

Dilynodd cyfnod o dywysogion yng Nghymru, gyda rhyfel cartref (mwy o ymrafael) ac ymosodiadau gan Loegr, ond yn y pendraw unwyd tri chwarter Cymru dan Llywelyn ap Iorwerth. Byddai'r Llywelyn hwn yn cael ei adnabod yn ddiweddarach fel 'Llywelyn Fawr' – dywedwyd iddo gael ei eni ger safle Castell Dolwyddelan yn ystod y 1170au, cyn dianc i'r Mers yn dilyn ymrafael rhwng ei ewythrod a oedd yn brwydro i reoli Gwynedd. Ac yntau ond yn 16 oed brwydrodd Llywelyn, gyda chymorth ei gefndryd hŷn, yn erbyn ei ewythr Dafydd yn Aberconwy ym 1193. Roedd Llywelyn yn wahanol i'w gyndeidiau – roedd wedi priod i mewn i deulu o uchelwyr Seisnig gyda Joan, merch siawns y Brenin John, a derbyniodd gydnabyddiaeth gyhoeddus gan frenin Ffrainc ym 1212 – a oedd yn dangos cydnabyddiaeth gynyddol o Llywelyn a theyrnas Gwynedd ar y pryd hwn. Pan fu farw Llywelyn ym 1240, fe'i claddwyd mewn arch addurnol o garreg yn Abaty Aberconwy, Eglwys y Santes Fair bellach

Roedd un o'i staff, Ednyfed Fychan, yn aelod blaenllaw o'i lys. Ar un adeg roedd yn berchen ar eiddo ar safle Llys Euryn, Llandrillo-yn-Rhos, sydd wedi'i golli bellach dan olion presennol y safle. Mae'n bosib y byddai'r eglwys yn Llandrillo-yn-Rhos yn cynnwys ardal ei gapel ei hun ar un adeg – dywedir fod bwâu dan sêl ar un o'r waliau gogleddol yn nodi'r man y safai. Fodd bynnag, mae Ednyfed Fychan yn arwyddocaol am reswm arall: arweiniodd ei linach yn y pen draw at sefydlu brenhinlin y Tuduriaid.

Ym 1282 ymosododd Edward I, y 'Concwerwr' a 'Morthwyl yr Albanwyr' a chymryd rheolaeth dros Gonwy. Trefnwyd i symud Abaty Aberconwy 13 milltir ymhellach i fyny'r afon, i safle a elwir yn Abaty Maenan. Mae'r Abaty wedi diflannu

erbyn hyn, ar ôl cael ei ddymchwel i raddau helaeth erbyn diwedd yr 16 ganrif, ond mae gwaith diweddar gan archeolegwyr wedi ein helpu i ddadorchuddio darnau o'r adeilad hwn a fyddai'n fawreddog ar un adeg. Gadawodd Edward I hefyd Gastell Deganwy a chodi castell newydd Conwy yr ochr arall i'r Afon Conwy. Cynlluniwyd y castell gan y Meistr James o Lansan Siôr; roedd yn gynllunydd cestyll adnabyddus a oedd yn gyfrifol am nifer o gestyll y 'cylch haearn' – y rhes o gaerau a adeiladwyd yng Ngogledd Cymru fel arwydd o gryfder a thra-arglwyddiaeth y Saeson. Gorfodwyd Edward I i lochesu yn y castell hwn yn ystod gaeaf 1294 yn dilyn gwrthryfel lleol y flwyddyn honno. Rhwystrwyd bwyd a chychod achub rhag dod i mewn gan y tywydd garw, gan arwain at y posibilrwydd y byddai Edward I a'i ddynion yn marw yn y castell. Yn ffodus iddyn nhw, arbedwyd ei fywyd gan newid yn y tywydd ac ymgiliad y fyddin a arweiniai'r gwrthryfel Cymreig.

Arweiniwyd y gwrthryfel Cymreig mawr olaf o 1400 gan Owain Glyndŵr gyda chefnogaeth gan Rhys a Gwilym ap Tudur ap Goronwy. Llwyddodd y brodyr Tudur i fynd i mewn i Gastell Conwy drwy dwyll, mwy na thebyg fel masnachwyr, a llwyddwyd i gael rheolaeth ar y castell gyda dim ond 40 o ddynion. Llwyddont i gadw rheolaeth ar y castell am 3 mis hir cyn ildio ar delerau ffafriol. Trafodwyd y telerau 'ffafriol' dros ildio gan y brodyr Tudur ac roedd yn cynnwys pardynau – ond nid ar gyfer 8 o'u dynion a ddienyddiwyd gan y Saeson fel rhan o'r fargen. Ar draws Cymru, dechreuodd 9 mlynedd o frwydro gyda Glyndŵr yn sicrhau sawl cynghrair (gan gynnwys gyda'r Ffrancwyr) a chytuniadau wrth geisio sicrhau Cymru sofran. Ym 1409, cymerwyd Castell Harlech gan y Saeson a charcharwyd y rhan fwyaf o deulu Glyndŵr (bu farw pob un ohonynt yn Nhŵr Llundain cyn 1415). Cafodd un o'r brodyr Tudur, a gipiodd Gastell Conwy 9 mlynedd yn gynharach, ei ddienyddio yng Nghaer ym 1410. Dihangodd Glyndŵr a ni chafodd ei weld eto.

Rhannwyd Cymru yn Dywysogaeth, a lywodraethwyd gan Dywysog Cymru, etifedd coron Lloegr, a thua 40 o Arglwyddiaethau'r Mers. Ym 1535-42 datganodd Harri VIII fod Cymru'n rhan o Deyrnas Cymru a Lloegr'. Un rheswm dros hyn oedd dileu anghyfraith, er fod herwyr yn parhau i fod yn broblem mewn rhai rhannau o Gymru am ddegawdau wedyn. Wrth i Harri VIII Ddiddymu'r Mynachlogydd yng Nghymru a Lloegr, cafodd nifer o abatai, mynachlogydd ac eglwysi pwysig yn Sir Conwy eu difwyno – ym 1536 targedwyd Abaty Maenan – tynnwyd eu metelau prin i lawr a'u toddi, ac aethpwyd â cherrig a gwaith coed o'r adeiladau i fwrdd i'w defnyddio mewn gwaith adeiladu yn rhywle arall. Yn ôl y chwedl, gwagiwyd yr holl aur a'r addurniad gemwaith arch carreg Llywelyn Fawr, gyda chorff Llywelyn yn cael ei daflu i mewn i'r afon Conwy! Mae'r groglenn bren o'r abaty, yn ogystal â gwaelod arch Llywelyn, bellach i'w gweld yn Eglwys Sant Grwst yn Llanrwst.

Lleihaodd pwysigrwydd strategol Castell Conwy dros amser. Erbyn yr 16eg ganrif, roedd y castell yn garchar ac yn breswylfa bosibl i ymwelwyr pwysig â'r ardal. Cafodd y castell ei drosglwyddo i dri o wŷr bonheddig yn olynol (a oedd yn perthyn i'w gilydd), pob un ohonynt wedi eu galw'n Edward Conway. Gwnaed defnydd milwrol o'r castell unwaith yn rhagor yn ystod y Rhyfel Cartref, pan y

cafodd ei ddefnyddio fel caer y Brenhinwyr gan yr Archesgob John Williams. Gwelodd anghydfod gydag un o gadlywyddion y Brenin Siarl I Gastell Conwy yn mynd i ddwylo'r Seneddwyr erbyn 1646, yn bennaf gan fod John Williams wedi newid ochrau. Gallai'r weithred hon fod wedi achub Castell Conwy, gan na wynebodd lawer o ddifrod o safbwynt difrodi bwriadol o'i gymharu â chestyll eraill yng Nghymru fel Aberystwyth. Fodd bynnag, aeth y 3ydd Edward Conway â'r holl fetelau gwerthfawr o'r safle a gadael iddo adfeilio.

Yn ystod ail hanner y cyfnod hwn dechreuodd y bonedd Cymreig ddatblygu, dosbarth cymdeithasol uwchlaw'r rhai hynny a oedd yn perthyn i'r dosbarthiadau is yn y cyfnod. Roedd y bonedd Cymreig yn yr 17eg ganrif yn dlotach fodd bynnag na'u cymheiriaid Saesneg, ac yn canolbwyntio fwy ar bwysigrwydd tras nac ar arian. Gallai bron pob stad Gymreig yn y cyfnod hwn olrhain eu hachau i'r tywysogion a'r brenhinoedd Cymreig cynnar – safle a ddyrchafai eu statws yn lleol. Mae gwir amheuaeth, fodd bynnag, yn parhau i fod am gywirdeb y datganiadau hyn. Un o deuluoedd pwysicaf y cyfnod hwn oedd y teulu Wynn, a oedd yn berchen ar eiddo a chartrefi ar draws y sir.

Ceir nifer o adeiladau pwysig o'r cyfnod hwn yng Nghonwy, yn y dref ac ar draws y sir yn ei chyfanrwydd. Yn eu plith mae Tŷ Aberconwy, tŷ masnachwr sydd wedi goroesi ers yr 14eg ganrif. Cafodd nifer o'r hen dai â fframiau pren yng Nghonwy eu dymchwel erbyn yr 20fed ganrif fel modd o 'foderneiddio' y dref gyda dim ond rhai yn goroesi. Gall hen brintiau a darluniau ddweud llawer wrthym am yr hyn a arferai fodoli yn y dref yn y cyfnod hwn. Ymhlith y cartrefi pwysig eraill mae Plas Mawr, a godwyd ym 1576 gan y teulu Wynn, sy'n un o'r tai tref Elisabethaidd gorau ym Mhrydain. Seiliwyd cynllun yr iard ar ffasiwn cyfandir Ewrop yn ystod y cyfnod hwn. Enghraifft arall yw Castell Gwydir, maenordy caerog ychydig y tu allan i Lanrwst a dyma oedd prif breswylfa'r teulu Wynn.

Tua'r cyfnod hwn y gwelir y cyfeiriadau cynharaf at gemau pêl. Er nad oes tystiolaeth ffisegol nac ysgrifenedig o'r gêm a chwaraewyd yng Nghonwy yn y cyfnodau cynnar, ceir cyfeiriadau at gemau pêl ar draws Prydain Rufeinig a'r Oesoedd Tywyll. Byddai'r gemau pêl hyn yn cael eu chwarae gyda phledren mochyn neu fuwch wedi'i llenwi ag aer, er y dywedwyd fod peli o gadachau ac hyn yn oed papur wedi eu defnyddio mewn sawl rhan o Gymru. Byddai'r gemau hyn yn aml yn cael eu chwarae ar draws gaeau ac ardaloedd agored, ac mae sôn fod pentrefi cyfan yn cymryd rhan! Yn ne Cymru roedd gêm debyg i b êl-droed yn cael ei galw'n 'cnapan', ac roedd yn boblogaidd iawn yn ystod yr 17eg ganrif.

1700 - 1837

Ar draws Ewrop roedd mudiad ar dwf a ddaeth i gael ei alw'n Oes Rheswm neu'r Oes Oleuedig. Roedd yn gyfnod o feddwl, myfyrio a damcaniaethau ym myd gwyddoniaeth ac athroniaeth. Roedd y datblygiadau hyn yn cylchredeg drwy'r dosbarthiadau uwch, ond roedd yn cymryd hirach iddynt gyrraedd y bobl dlotaf. Un o'r newidiadau pwysicaf oedd y syniad y dylid ystyried plant fel pobl ac y dylid rhoi'r hawl iddynt ffynnu. Yn gynnar yn y cyfnod hwn, byddai plant yn cael eu trin yn greulon. Credai rhieni (yn dlawd ac yn gyfoethog) mai ei swydd oedd disgyblu, ac hyd yn oed dorri ewyllys y plentyn, yn gorfforol ac yn feddyliol. Dyma oedd y ffordd y parhaodd plant i gael eu magu mewn ardaloedd gwledig am amser hir. Roedd disgwyl i blant weithio fel oedolion ond roeddynt yn cael eu cosbi'n greulon am beidio â byw yn ôl safonau oedolion.

Pan ddechreuodd pethau newid, roedd bechgyn a merched yn dal i gael eu trin yn wahanol. Roedd bechgyn yn dysgu llythrennedd a rhifedd er mwyn eu paratoi ar gyfer gwaith, ond roedd merched yn cael eu dysgu i fod yn wragedd.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd cyfoeth y cyfoethog ac aeth y tlawd yn hyd yn oed tlotach! Dechreuodd y tîrfeddianwyr cyfoethog gyflwyno trethi e.e. tollffyrdd, a derbyniai'r eglwysi'r degwm (taliadau drwy gnydau, cig neu enillion (gweler isod i gael rhagor o fanylion) Roedd y trethi'n uchel ac yn golygu fod y tlawd yn ei chael yn anodd gan yn aml fethu i gwrdd â'r galwadau cynyddol ac yn methu bwydo eu teuluoedd. Yn aml byddai teuluoedd yn anfon eu meibion i'r trefi a'r dinasoedd i wneud prentisiaeth (a dysgu crefft fel cadw cyrifon). Fodd bynnag, byddai rhai perchnogion busnesau twyllodrus yn codi tâl am y 'gwasanaeth' hwn, ac yna'n peidio â darparu'r hyfforddiant neu'r safon byw a addawyd.

Yn aml gadawyd i'r bechgyn hyn ofalu amdanynt eu hunain a dechreuodd rai ffurfio gangiau i amddiffyn eu hunain ac roedd bod mewn criw yn rhoi cryfder iddynt. Roedd hyn yn digwydd ledled y Deyrnas Unedig a dechreuodd yr

anniddigrwydd ymhlith y gweithwyr ysgogi gwrthryfel. Ar yr un pryd, dechreuodd y Chwyldro Diwydiannol (1750-1840), lle symudodd gweithgynhyrchu o adeiladu cartrefi a defnyddio offer llaw i adeiladu ffatrïoedd a defnyddio peiriannau. Gwnaeth masgynhyrchu eitemau'n rhatach na'r fersiynau a wnaed â llaw. O ganlyniad, cynyddodd cyflogau a safonau bwy, er fod tlodi yn dal yn eang.

Ar ôl adeiladu'r ffordd fodern gyntaf ar hyd arfordir Gogledd Cymru, galwyd ar y peiriannydd a'r cynllunydd blaenllaw o'r Alban Thomas Telford i ymgynghori ar y ffyrdd a'r priffyrdd ym 1811. Ar y pryd hwn, doedd nifer o ffyrdd Cymru yn ddim mwy na thraciau, gyda rhai ohonyn nhw'n dilyn y ffyrdd Rhufeinig. Nid budd y bobl leol oedd y rheswm dros y gwaith moderneiddio ar y ffyrdd fodd bynnag – byddai'r ffordd newydd hon yn hwyluso symudiad cyflymach negeseuon gwleidyddol o Lundain i'r Iwerddon drwy Gaergybi, Sir Fôn. Ar y pryd hwn, ceffyl a chert oedd yr unig ddull cludiant dibynadwy, dull cludo a fyddai'n cael ei lestririo'n rhwydd gan ffyrdd gwael. Rhoddwyd i Thomas Telford y dasg o gynllunio a goruchwylio'r cynllun gwella ffyrdd hwn – ei waith yw'r sail ar gyfer ffordd yr A5 rydym yn ei adnabod heddiw. Erbyn 1819 roedd gwelliannau i ffyrdd Caergybi a nifer o bontydd wedi'u cwblhau. Croesi ceg yr afon Conwy, a wasanaethwyd gan fferis hyd at y cyfnod hwn, oedd yr unig rwystr oedd ar ôl i Telford ei oresgyn. I unioni hyn, dyluniodd Telford bont grog – tebyg i'w chwaer bont fwy o faint ym Mhorthaethwy, Ynys Môn. Cwblhawyd y bont ym 1826.

Byddai effaith adeiladu'r pontydd hyn ar Gonwy yn aruthrol. Byddai'r ffyrdd hyn yn helpu hwyluso twf trefi fel Llandudno, Penmaenmawr ac ardaloedd arfordirol eraill, gan alluogi twristiaid i ymweld â'r ardal. Fodd bynnag, byddai diwydiannau lleol llai o faint fel fferi Conwy yn darfod yn sydyn, diwydiant a oedd wedi bodol yn yr ardal ers cannoedd o flynyddoedd.

Fictoriaid 1837-1901

Roedd masgynhyrchu yn dal i gynyddu a ffatrioedd yn tyfu o ran maint a nifer. Yng Nghymru, roedd y tirwedd wedi newid am byth o ganlyniad i gloddio glo ar raddfa fawr. Er gwaethaf diddymu llafur plant, roedd yn parhau i ddigwydd. Roedd plant bach yn gallu mynd i fannau cyfyng ac yn aml yn gweithio yn y tywyllwch yn ystod oriau'r dydd, gan arwain at salwch fel y llechau (diffyg fitamin D o oleuni'r haul - mae hyn wedi digwydd eto yn 2018-19 gan fod rhai plant yn treulio eu holl amser y tu mewn ar gyfrifiaduron). Cofnodwyd nifer o ddamweiniau mewn chwareli yn sgil amodau gwaith gwael o amgylch Penmaenmawr: ddechrau mis Hydref 1865 lladdwyd Evan Hughes ar ôl syrthio tri deg lladd oddi ar wyneb carreg serth, ar ôl llithro oddi ar y rhaff yr oedd yn ei ddefnyddio i ddringo i lawr. Ar 15 Mai 1877, lladdwyd gweithiwr chwarel arall, Robert Roberts, mewn ffrwydrad yn Chwarel Penpenmaen. Goroedd brawd Robert, Joseph, a oedd yn gweithio gyda fo ar y pryd, ond dioddefodd anafiadau difrifol. Wynebodd gweithiwr chwarel arall, yr Albanwr John Bostock, yr un ffawd â Robert yn chwarel Graiglwyd dim ond ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yng Nghymru, roedd y tîrfeddianwyr a gwleidyddion yn parhau i gyflwyno ffyrdd i drethu pobl. Arweiniodd y tollau ffyrdd yng Nghymru at **Wrthryfel Rebecca** https://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/society/politics_rebecca_riots.shtml yn ne a chanolbarth Cymru, ac achosodd y pwysau cynyddol ar y ffermwyr i roi mwy o'u hincwm i'r tîrfeddianwyr a'r Eglwys aflonyddwch gan gynnwys Helynt y Degwm ym Mochdre. Roedd y degwm yn daliadau traddodiadol a oedd yn rhoi hawl i'r Eglwys gymryd deg y cant o

incwm blynyddol pobl. Yn draddodiadol, gwnaed y taliadau hyn mewn nwyddau ar ffurf cynydu, gwlan, llefrith neu gynhyrchion eraill, cyfwerth â deg y cant o'r cynhyrchiant blynyddol. Ym 1836 pasiwyd darn newydd o ddeddfwriaeth, Deddf Cymudo'r Degwm. Disodlwyd y taliad mewn nwyddau gyda thaliad arian parod. Cynyddodd dirwasgiad amaethyddol yn y 1870au a'r 1880au densiynau lleol ymhlith ffermwyr, a oedd yn methu ac weithiau'n amharod i dalu'r ffioedd newydd hyn – o ganlyniad cafodd nifer o ffermydd eu cipio gan y llywodraeth a arweiniodd at hyd yn oed fwy o densiynau. Rhwng 1887 a 1888 aeth pethau i'r pen, gyda chofnod o brotestiadau ffyrnig mewn sawl lle yn Sir Conwy.

Cafwyd gwrthdaro o'r fath ym Mochdre. Ar 16 Mehefin 1887 cyrhaeddodd ynad, comisiynydd yr eglwys, cyfreithiwr, arwerthwr a chwe phorthmon gwartheg Mochdre, ynghyd â beiliaid, mwy na 100 o heddlu a chwmni o Gatrawd Swydd Gaer (tua 200 o filwyr). Taniwyd canonau ar fryn cyfagos, a bu gwrthdaro ffyrnig rhwng yr heddlu a phobl leol. Ni ddechreuodd y dorf wasgaru nes y darllenwyd y Ddeddf Derfysg iddynt (cosb o ddienyddio i'r rhai a oedd yn cael eu dal).

Ar ddechrau teyrnasiad y Frenhines Fictoria, roedd y rhan fwyaf o blant ond yn mynd i'r Ysgol Sul ac yn dysgu'r ysgrythur – dim darllen nac ysgrifennu. Roedd gan blant cyfoethog nani i'w dysgu nhw, er bod yr anghyfartaledd rhwng merched a bechgyn yn parhau. Erbyn diwedd yr oes Fictoraidd, roedd yn orfodol i blant o dan 12 oed fynd i'r ysgol. Roedd yn rhaid i rieni dalu am yr ysgol tan 1891. Nid oedd rhai yn gallu ei fforddio ac roedd rhai â dwy broblem o golli pâr o ddwylo i helpu yn y teulu A gorfod talu. Roedd rhai rhieni yn gwrthod gadael i'w plant fynd ond yn y diwedd yn gorfod mynd i'r llys gyda dirwyon. Roedd pobl yn ei chael hi'n anodd bwydo eu teuluoedd ac eisiau newid, ond roedd y sawl oedd mewn grym, yn Llundain, yn gwrthod credu ac yn disgrifio'r Cymry yn 'farus', 'barbariaid' ac 'yn araf'. Roedd rhai gwleidyddion hyd yn oed yn rhoi'r bai ar y Gymraeg. Arweiniodd hyn at gyfnod o atal y Gymraeg.

Roedd Deddf Addysg 1870 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion elfennol gael eu sefydlu ledled y wlad. Fodd bynnag, nid oedd yna hyfforddiant i athrawon ac roedd yr adnoddau'n brin. Achosodd atal y Gymraeg mewn ysgolion broblemau di-ri. Nid oedd yr athrawon na'r plant yn gallu siarad Saesneg y rhan fwyaf o'r amser a doedd dim modd o ddysgu'r iaith. Roeddent yn ei chael hi'n anodd, yn aml yn ei chael i'n amhosibl dysgu unrhyw beth. Pan oedd yr ysgolion yn cael eu harchwilio, roedd yr arolygydd yn dychryn gyda safon y dysgu a'r addysgu ac yn nodi fod angen i'r plant 'ddysgu Saesneg er mwyn cael eu haddysgu yn Saesneg!'

Defnyddiwyd y Welsh Not mewn rhai ysgolion fel modd o gosbi plant os byddent yn siarad Cymraeg. Rhoddwyd ffon neu lwmp o blwm i bob plentyn oedd yn siarad Cymraeg neu roedd rhai iddynt wisgo plac. Yr unig ffordd y byddent yn cael gwared arno oedd os byddent yn clywed plentyn arall yn siarad Cymraeg, dweud wrth yr athro ac yna roedd y Welsh Not yn cael ei drosglwyddo. Rhoddwyd cosb gorfforol i'r plentyn oedd â'r Welsh Not yn ei feddiant ar ddiwedd y diwrnod ysgol (yn aml gyda chansennau). Ond mewn rhai ysgolion, rhoddwyd y gosb i unrhyw un oedd wedi cael y Welsh Not y diwrnod hwnnw. Ym 1891 dechreuwyd darparu addysg am ddim i bawb a dechreuodd pethau wella yn araf bach.

Roedd adloniant yn gynyddol bwysig ac yn rhyfedd. Roedd archwilio yn agor y byd, gan gyflwyno diwylliannau, syniadau ac anifeiliaid newydd. Daeth dyfodiad y rheilffyrdd ag artistiaid o Lerpwl a Manceinion. Trefnodd yr artistiaid hyn i gwrdd â grŵp o artistiaid o'r un anian, ac o'r cyfarfod hwn ffurfiwyd grŵp o'r enw'r Cambrian Academy of Art, sydd wedi ei leoli yn nhref Conwy ers 1886. Cydnabuwyd twf cyflym yr Academi flwyddyn ar ôl ei sefydlu, pan y gorchmynnodd y Frenhines Fictoria ym 1882 y dylid ei alw'n 'Royal' Cambrian Academy of Art. Ychwanegodd syrcau, theatrau, sŵau a sioeau fel yr un yn The Greatest Showman wledd i'r llygad yn ystod oes Fictoria. Cafodd hyn ddylanwad aruthrol ar y teganau oedd yn cael eu gwneud a sut yr oedd plant yn chwarae.

Gyda gwelliannau i dechnolegau rheilffyrdd, daeth gwelliannau pellach i gludiant yn y rhanbarth. Gwelwyd ychwanegu rheilffordd i Gaergybi fel y cam rhesymegol nesaf ar gyfer cludo nwyddau a negeseuon ar draws y wlad i'r Iwerddon ac oddi yno. Byddai modd i drên deithio am bellter hir yn llawer cyflymach nag y gallai coets – byddai'n cymryd sawl diwrnod i deithio mewn coets ond gallai trên gwblhau'r daith mewn llai na 24 awr. Rhoddwyd i Robert Stephenson y dasg o greu llinell reilffordd newydd i Gaergybi o Gaer. Defnyddiwyd y bont diwb yng Nghonwy, a adeiladwyd ym 1848, fel prototeip ar gyfer Pont Diwbiau Britannia ar Ynys Môn, a adeiladwyd ym 1850. Byddai dyfodiad cludiant trên yn arwain at ragor o dwristiaeth yn yr ardal, ond hefyd achosodd ddirywiad ac yna diwedd ar ddiwydiannau eraill fel y porthmyn – byddai porthmyn yn cerdded da byw dros bellteroedd mawr gan gynnwys dros y ffin i Loegr Fodd bynnag, nid oedd y reilffordd newydd yn ddi-helbul – ym 1868 gwrthdrawodd rhes o wagenni ffo â thrên stêm, The Irish Mail, tu allan i Abergele. Ffrwydrodd y wagenni, a oedd yn llawn olew paraffin fflamadwy – lladdwyd 33 o bobl: un o drychinebau rheilffordd mwyaf Prydain Fawr yn y cyfnod.

Dechrau'r 20fed Ganrif tan yr Ail Ryfel Byd

Ym 1903, sefydlwyd Undeb Gymdeithasol a Gwleidyddol y Merched (WSPU) i helpu llosgi dros hawliau merched – y brif nod oedd rhoi'r hawl i ferched i bleidleisio. Dyma ddechrau mudiad y bleidlais. Ffurfiwyd cangen gyntaf Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Pleidlais i Ferched (NUWSS) yng Nghymru ym 1907, yn ystod cyfarfod yn Llandudno lle'r etholwyd Mrs Walton-Evans yn lywydd y gangen. Sefydlwyd ysgol haf gan yr NUWSS yn Nyffryn Conwy a oedd yn cynnig hyfforddiant siarad cyhoeddus i ferched. Er waethaf gweithgareddau mudiad y bleidlais, methwyd gwneud y bleidlais i ferched yn flaenoriaeth i'r llywodraeth cyn y rhyfel. Ond nid oedd modd gwrthod y bleidlais i ferched yn dilyn eu cyfraniad i'r ymdrech ryfel; ym 1918 roedd 83% o weithlu Ffatri Shell Casnewydd yn ferched. Pasiwyd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl ym 1918. I gymodi â gwrthwynebwyr y bleidlais i ferched, dim ond merched dros 30 oed a oedd yn ddeiliaid tai neu'n briod â deiliaid tai a oedd â'r hawl i bleidleisio, a olygai fod mwyafrif yr etholwyr yn dal i fod yn ddynion. Estynnodd y newidiadau hyn yr oedran pleidleisio i bob dyn dros 21. Gostyngwyd yr oedran pleidleisio i ddynion a oedd yn filwyr i 19 oed, a diddymwyd y rheol mai dim ond dynion a oedd wedi byw yn y wlad am dros 12 mis oedd yn cael pleidleisio. Arweiniodd hyn at newidiadau aruthrol i ddemograffeg pleidleisio ar draws y wlad, yng Nghymru cynyddodd nifer yr etholwyr o 430,000 i 1,172,000. Gostyngodd Deddf Etholfraint Cyfartal 1928 yr oedran pleidleisio ar gyfer merched i 21, gan roi'r un hawliau pleidleisio i ferched a dynion (ac eithrio'r rhai hynny oedd yn perthyn i'r lluoedd arfog).

Y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918)

Yn dilyn ymgyrch recriwtio yng Nghaernarfon, a adawodd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig 100 o ddynion yn brin, gwelodd ymgyrch recriwtio bellach yn y Felinheli ac ym Mae Colwyn dorfeydd mawr yn cael eu hannog i restru fel bataliynau 'Cyfeillion'. Roedd y bataliynau hyn yn cynnwys dynion o'r un pentref, tref, tîm pêl-droed neu sefydliad gwaith yn ymrestru i greu bataliwn 'Cyfeillion' a oedd yn mynd i ryfel gyda'i gilydd. Un o anafateision y bataliynau 'Cyfeillion' oedd y gallai un tref neu bentref golli nifer aruthrol o'u dynion mewn un diwrnod o frwydro. Bu farw 30-40,000 o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bron pob un ohonynt yn ddynion.

Yr Ail Ryfel Byd (1939-1945)

Gweithiodd 1,000 o ddynion yn gyfrinachol gyda'r nos ym Morfa Conwy yn adeiladu rhan o'r Harbwr Mulberry. Helpodd y strwythur arnofiol symudol hwn 2.5 miliwn o ddynion, 500,000 o gerbydau a 4 miliwn tunnell o nwyddau i lanio yn ystod glaniad y Cynghreiriaid ar Normandi.

Rhoddwyd y dasg o dreialu'r cynlluniau ar gyfer yr Harbwr Mulberry yng Nghonwy i'r peiriannydd Cymreig Hugh Iorlys Hughes o Fangor. Daeth yr ardal yn safle adeiladu enfawr a heidiodd gweithwyr i'r ardal i greu a phrofi'r prototeipiau. Rhagwelodd Hughes y byddai'n rhaid i'r Cynghreiriaid adeiladu harbyrau o gydrannau parod ar draethau pell oherwydd fod y porthladdoedd Ffrengig sefydledig wedi eu gwarchod yn rhy dynn. Tynnwyd sylw uwch swyddogion at y cysyniad hwn gan ei frawd, comander yn y Llynges Frenhinol.

O 1942 tan 1944, gweithiodd bron i 1,000 o ddynion ym Morfa Conwy, y traeth a'r ardal o dwyni i'r gogledd o'r dref lle mae'r foryd yn cwrdd â'r môr. Tynnwyd yr adeileddau i Ffrainc a'u cysylltu i ffurfio dwy wal harbwr.

Ychydig bellter i ffwrdd, Llandudno oedd cartref Ysgol Fagnelau Arfordirol y Magnelwyr Brenhinol, safle hyfforddi eang ar frig y Gogarth. Arferai'r safle, a ddefnyddiwyd rhwng 1940 a 1945, fod wedi'i leoli yn Shoeburyness (Essex), ond symudodd i'r ardal yn sgil bomio'r Almaenwyr ar arfordir Lloegr yn ystod y rhyfel. Roedd y ganolfan yn enfawr ac yn gorchuddio rhan helaeth o frig y Gogarth. Roedd yn cynnwys nifer fawr o weithdai, storfeydd, lleoliadau goleuadau chwilio, a phlatfformau gynau ar gyfer hyfforddiant y Llynges a hyfforddiant milwrol. Ar ei anterth ym 1942 roedd dros 700 o bersonél wedi eu lleoli yma, gan gynnwys swyddogion, milwyr dan hyfforddiant a staff milwrol eraill. Yn y cyfamser, defnyddiwyd yr adeilad ar frig y Gogarth, a arferai fod yn westy ar gyfer golffwyr, gan yr Awyrlu Brenhinol fel gorsaf radar.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd - 2020

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, newidiodd llawer o bethau. Roedd merched, a oedd wedi llenwi yng ngwaith y dynion yn ystod y rhyfel, wedi profi eu bod yn alluog, a rhoddwyd mwy o gydraddoldeb a hawliau iddynt (mae hyn yn dal i fynd yn ei flaen!). Roedd plant wedi eu gwarchod gymaint â phosibl yn y rhyfel ond roeddent wedi bod yn dyst i'r arswyd a'r dinistr. Roedd hadau'r mudiad heddwch wedi'u hau.

Agorwyd BS Bacon (Games) Cyf rywbryd ddiwedd yr 1940au-50au yn Llanrwst. Roeddent yn cyflogi llawer o ferched a phobl ifanc yn ogystal â dynion. Maent yn fwyaf adnabyddus am greu cyfres 'Conway Valley' o dai doliau. O 1947 daeth tŷ mawr ym Mhenmaenmawr o'r enw Penholm yn gartref i Ffatri Ddoliau Rogark. Erbyn canol y 1950au cyflogwyd 20 o bobl yno, ac roedd 100 o ferched lleol hefyd yn gweithio ar y doliau yn eu cartrefi. Roedd mwy na 50 ar y rhestr aros.

Drwy gydol yr 20fed ganrif, newidiodd addysg ac roedd mynediad gan blant at ysgolion cymysg, rhad ac am ddim. Gwnaed cosbau corfforol mewn ysgolion yn anghyfreithiol erbyn diwedd y ganrif.

Roedd setiau teledu mewn mwy a mwy o dai ac roedd pobl yn agored i syniadau newydd, adloniant a hysbysebion. Bu gwelliannau mewn technoleg a damweiniau a arweiniodd at ddyfeisiadau. Arweiniodd gollwch Spring mewn ffatri geir yn America at y 'slinky'. Creodd dyn a oedd yn datblygu papur wal y toes chwarae cyntaf.

Golyga oergelloedd a rhewgelloedd y gellir cadw bwyd yn ffres am hirach, ac mae datblygiad plastig fel sgil-gynnyrch i'r diwydiant petrocemegol yn helpu i gadw bwyd a gyda hylendid.

Mae plastig yn dechrau disodli deunyddiau ym mhob diwydiant a chartref. Mae pobl yn prynu ac yn defnyddio mwy. Nid oes unrhyw un yn cwestiynu ble y bydd y plastig yn mynd na pha mor fawr y bydd y mynydd plastig yn tyfu. Mae galwadau am ddewisiadau eraill mwy cynaliadwy yn lle plastig untro yn rhoi pwysau ar lywodraethau a chwmnïau.

Yn 2019, cynhaliwyd gorymdeithiau a phrotestiadau newid hinsawdd o amgylch y byd, dan arweiniad pobl ifanc a oedd eisiau i bob llywodraeth wneud y newidiadau radical sydd eu hangen i achub ein planed. A yw hyn yn gweithio? A oes unrhyw ddatblygiad?